# Adroddiad ar Weithdai Ymgysylltu â Rhanddeiliaid Medr

AWST 2024

# Adroddiad Edge Foundation ar Weithdai Ymgysylltu â Rhanddeiliaid Medr (Gorffennaf 2024)

## Cefndir

Ym mis Gorffennaf 2024, gofynnodd Llywodraeth Cymru i Edge Foundation roi cymorth gyda dwy sesiwn ymgysylltu â rhanddeiliaid i gasglu eu barn am y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Medr) yng Nghymru. Fe wnaeth Edge Foundation hwyluso dau weithdy:

- Llandudno, Dydd Mercher 3 Gorffennaf 2024
- Caerdydd, Dydd Llun 8 Gorffennaf 2024

Mae'r papur hwn yn grynodeb o'r canfyddiadau ar draws y gweithdai, gan gynnwys y sesiynau rhyngweithiol gan ddefnyddio Mentimeter (Canfyddiadau o Menti). Gellir darllen y rhain ar y cyd ag Atodiad A a B.

Ym mhob un o'r gweithdai, roedd y trafodaethau'n hynod amrywiol ac, ar adegau, yn gwyro y tu allan i gwmpas y Flaenoriaeth Strategol a oedd yn cael ei thrafod. Rydym wedi adlewyrchu'r pwyntiau hyn fel 'Pwyntiau Ychwanegol' dan y crynodeb o'r gweithdai.

Rydym hefyd wedi mapio'r pwyntiau trafod yn erbyn rhai o'r Amcanion ar gyfer Medr a restrir yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol (a nodir â ** drwy'r ddogfen).

## Llywio drwy'r ddogfen hon


| | |
|---|---|
| Barn Gyffredinol Ynglŷn â Medr (Canfyddiadau o Menti) | **2** |
| Barn ynglŷn ag Egwyddorion Arweiniol Medr (Canfyddiadau o Menti) | **3** |
| Barn ynglŷn â Blaenoriaethau Strategol Medr (Gweithdai) | **6** |
| Barn ynglŷn ag Ymgysylltu (Canfyddiadau o Menti) | **18** |

## Barn Gyffredinol Ynglŷn â Medr (Canfyddiadau o Menti)

Roedd consenswsymhlith cyfranogwyr y byddai Medr yn ddefnyddiol i wella cydweithio ym myd addysg drydyddol, gan ddarparu dull sy'n canolbwyntio ar ddysgwyr a llwybrau eglur trwy ddileu dyblygu. Fe wnaeth cyfranogwyr hefyd godi'r cyfle i Medr ysgogi twf economaidd trwy gysoni addysg drydyddol ac ymchwil ag anghenion diwydiant. *Gweler Atodiad A tt.12-15 ac Atodiad B tt.21-33.*

Fodd bynnag, roedd dealltwriaeth hefyd y bydd heriau i gyflawni Medr, yn fwyaf arwyddocaol o ran cyllid. Ceir hefyd her o ran goresgyn y diwylliant o gystadleuaeth ym myd addysg drydyddol a gwrthwynebiad i newid. *Gweler Atodiad A tt.16-19 ac Atodiad B tt.34-46.*

Mae angen eglurder o ran perthynas Medr â chyrff hyd braich eraill a deddfwriaeth (e.e. Cymwysterau Cymru, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol), a sut y byddant yn rheoli rolau a chyfrifoldebau sy'n gorgyffwrdd.

- Cyllid: Peth derbyniad bod sicrwydd ariannol hirdymor yn annhebygol.
- Dylai strwythur prosesau gweinyddu/penderfynu (e.e. gweithgorau, pwyllgorau) gael ei symleiddio.
- 'Awdit' o gyrff/mentrau eraill (e.e. sicrhau ansawdd Gyrfa Cymru, Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol: a ydynt yn gwneud yr hyn y mae arnom eisiau iddynt ei wneud h.y. adnabod bylchau?).

Roedd sylwadau cadarnhaol ynghylch brandio 'Medr', yn enwedig gan bod hyn yn newid y ffocws i fod ar sgiliau a gallu, gan ddynodi cyfeiriad teithio cadarnhaol.

Ar y cyfan, roedd cyfranogwyr yn tueddu ychydig at gredu y byddai Medr yn helpu i ymdrin ag anghenion hirdymor addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru, gyda sgôr hyder o **dri allan o bump** ar gyfartaledd yn y ddau weithdy (*gweler Atodiad A t.20 ac Atodiad B t.47)*. Er bod cyfranogwyr yn optimistaidd at ei gilydd ynglŷn â Medr a lefel yr ymgysylltu a ddangoswyd, roeddent yn pryderu ynghylch maint yr her a faint sy'n dal i fod yn anhysbys o ran cyllid a'r amser y mae ei angen i gyrraedd y nodau hyn (*gweler Atodiad A tt.21-24 ac Atodiad B tt.48-59*).

## Barn ynglŷn ag Egwyddorion Arweiniol Medr (Canfyddiadau o Menti)

### Gweithio mewn Partneriaeth

Roedd consensws ymhlith rhanddeiliaid bod angen gwella cydweithio rhwng darparwyr addysg drydyddol, ysgolion, a chyflogwyr, gyda'r ddau weithdy'n rhoi sgôr o **3.3 allan o 10** i effeithiolrwydd cydweithio (*gweler Atodiad A t.28 ac Atodiad B t.63)*. Y rhwystr allweddol i gydweithio a enwyd oedd cystadleuaeth (sy'n aml yn cael ei hysgogi gan bwysau ariannol), ond roedd rhwystrau eraill yn cynnwys diffyg cyfathrebu a daearyddiaeth (*gweler Atodiad A tt.29-31 ac Atodiad B tt.64-75*).

Fodd bynnag, fe wnaeth cyfranogwyr rannu enghreifftiau o gydweithio da i Medr eu harchwilio hefyd, megis gradd-brentisiaethau, darpariaeth Gymraeg, y sector dysgu oedolion yn y gymuned a phartneriaethau sgiliau rhanbarthol. Yn fwy penodol, fe wnaeth rhanddeiliaid ein hannog i fwrw golwg ar y canlynol:

- Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Conwy a Sir Ddinbych
- Rhwydwaith Arloesi Cymru
- Partneriaeth gymdeithasol yng Ngholegau Cambria a Gwent
- Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru a Colegau Cymru
- Menter Addewid Caerdydd
- KESS 2
- Y cynllun Cam wrth Gam
- Ymgyrraedd yn Ehangach
- Cynghrair strategol De Ddwyrain Cymru
- Cydweithio rhwng darparwyr fel rhan o gynllun Twf Swyddi Cymru+
- Parent Power
- Cydweithio rhwng Partneriaeth Ymchwil a Mewnwelediad Gogledd Cymru ac ysgolion ar Brifysgol y Plant
- Bargen Ddinesig Bae Abertawe

*Gweler Atodiad A tt.32-34 ac Atodiad B tt.76-83 am restr lawn o enghreifftiau.*

### Cyfle Cyfartal

Pan ofynnwyd iddynt beth oedd 'cyfle cyfartal' yn ei olygu iddynt hwy, rhoddodd y cyfranogwyr atebion tebyg ar y cyfan – mynediad cyfartal at ddarpariaeth beth

bynnag fo'ch iaith neu ddaearyddiaeth, a ategir gan fynediad at gyngor ac arweiniad diduedd (gyda'r un pwys yn cael ei roi ar lwybrau academaidd a thechnegol) i sicrhau bod gan bawb fynediad at y llwybr sy'n gweddu orau iddynt hwy (*gweler Atodiad A tt.36-39 ac Atodiad B tt.86-96*).

Fodd bynnag, nid oedd cyfranogwyr yn cytuno ein bod yn ymdrin yn effeithiol ar hyn o bryd ag anghydraddoldeb mewn addysg drydyddol yng Nghymru, a hwythau wedi rhoi sgôr o **3.2 allan o 10** i hynny (sylwer mai dim ond yng ngweithdy Caerdydd y gofynnwyd hyn – *gweler Atodiad B t.85*).

Yn y ddau weithdy, y prif rwystr i gyfle cyfartal a enwyd oedd cyllid, gyda chludiant, daearyddiaeth a chystadleuaeth yn dilyn yn agos iawn (*gweler Atodiad A t.41 ac Atodiad B t.97*). Awgrymodd cyfranogwyr y gallai Medr ymdrin â'r rhwystrau hyn trwy gytundebau cyllido teg (yn seiliedig ar ardaloedd o amddifadedd), cydweithio agos a chyfartal gyda'r holl ddarparwyr, gwell cyngor gyrfaoedd, a mesurau o lwyddiant wedi'u diffinio'n glir ar draws y sector addysg drydyddol (*gweler Atodiad A tt.42-44 ac Atodiad B tt.98-109*).

## Cynaliadwyedd

Fe wnaeth cyfranogwyr ddiffinio 'Cynaliadwyedd' fel meddwl am yr hirdymor (gan gynnwys mewn penderfyniadau ariannol) i sicrhau goroesiad hirdymor ac fe dynnon nhw sylw at y ffaith bod hyn wedi'i sefydlu'n gadarn yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (*gweler Atodiad A tt.54-56 ac Atodiad B tt.135-143*). Fodd bynnag, fe wnaethant hefyd godi rhwystrau y bydd y corff addysg drydyddol newydd yn eu hwynebu i gyfrannu at gynaliadwyedd, megis cyllid ansicr byrdymor, darpariaeth anghyfartal ledled ardaloedd (yn benodol ardaloedd gwledig), a chyfnewidioldeb gwleidyddol (*gweler Atodiad A tt.57-59 ac Atodiad B tt.144-153*). Mewn ymateb i hyn, argymhellodd cyfranogwyr fod Medr yn bwrw golwg ar ymrwymiad ariannol hirdymor, yn pennu targedau hirdymor, ac yn hybu cydweithio rhwng darparwyr ac o fewn llywodraeth (*gweler Atodiad A tt.60-62 ac Atodiad B tt.154-162*).

## Y Gymraeg a Diwylliant Cymru

Roedd cyfranogwyr yn glir mai'r allwedd i hybu darpariaeth Gymraeg yw cynyddu nifer yr athrawon sy'n siarad Cymraeg. Roedd ganddynt syniadau eraill hefyd megis ehangu'r ystod o gyrsiau a gynigir yn Gymraeg a hyrwyddo manteision siarad Cymraeg i gyflogadwyedd (*gweler Atodiad A tt.64-66 ac Atodiad B tt.164-172*).

Yn y ddau weithdy, cafodd y gweithlu a chyllid eu henwi fel rhwystrau allweddol i ehangu darpariaeth Gymraeg (*gweler Atodiad A t.67 ac Atodiad B t.173*)

Ceir hefyd fanteision sy'n deillio o astudio ac addysgu yn sector addysg drydyddol Cymru, megis y dull cydweithredol, sy'n canolbwyntio ar y dysgwr, cyfleoedd gwaith yng Nghymru, a'r cyfle i ddatblygu sgiliau dwyieithrwydd (*gweler Atodiad A tt.68-70 ac Atodiad B tt.174-182*).

## Barn ynglŷn â Blaenoriaethau Strategol Medr (Gweithdai)

**Blaenoriaeth Strategol 1: Datblygu system drydyddol sy'n paratoi dysgwyr ar gyfer economi ddeinamig a chyfnewidiol lle gall pob un gaffael y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt er mwyn llwyddo mewn bywyd a gwaith.**

***Mae digonedd o gryfderau yn y system addysg drydyddol bresennol a phocedi o arfer da sy'n helpu i baratoi dysgwyr ar gyfer bywyd a gwaith. Gallai Medr gynorthwyo'r rhain i ffynnu ac adeiladu arnynt i greu newid ar draws y system gyfan.*** Er enghraifft, mae gan lawer o ddarparwyr gysylltiadau cryf â diwydiant (gan gynnwys trwy gyn-fyfyrwyr, Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, Gyrfa Cymru, Coleg Caerdydd a'r Fro, Addewid Caerdydd, grwpiau diwydiant yng nghanolbarth Cymru) a lle mae cyflogwyr yn ymgysylltu (e.e. â dysgu seiliedig ar waith, gradd-brentisiaethau), yn anecdotaidd mae'n dda iawn. Ceir sylfaen dda o ymddiriedaeth mewn a rhwng sefydliadau ac mewn rhai ardaloedd ledled Cymru, ceir cymorth a chynllunio i sicrhau bod y ddarpariaeth yn diwallu anghenion lleol (e.e. Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol). Mae ymdrechion i baratoi dysgwyr ar gyfer bywyd a gwaith (ac ehangu cyfranogiad) yn tueddu i fod wedi'u targedu at grwpiau oedran iau a'r rhai dros 50, ond ceir bwlch yn y ddarpariaeth ar gyfer y grŵp oedran rhwng y rhain. Mewn AU, siaradodd cyfranogwyr am gyfraddau cadw a chwblhau a deilliannau cryf fel agweddau cadarnhaol ar y system gyfredol.

***Fodd bynnag, cyfyngir yn ddifrifol ar ein capasiti i ddiwallu anghenion o ran sgiliau gan ddiffyg dealltwriaeth am ein hanghenion o ran sgiliau yn y dyfodol.*** Roedd rhywfaint o deimlad y dylai ymdrechion i hybu cyfranogiad mewn addysg drydyddol (yn enwedig AU) gael eu llywio gan ein hanghenion o ran sgiliau, nid i gynyddu niferoedd at ddibenion cudd (e.e. cyllid). Er y gallwn fod yn weddol hyderus ynglŷn â'r sgiliau yr ydym yn brin ohonynt ar hyn o bryd, mae'n bwysig paratoi dysgwyr ar gyfer anghenion o ran sgiliau yn y dyfodol. Mae hyn i'w weld yn her arbennig i ysgolion ond yn wybodaeth hollbwysig a ddylai fwydo'n well i mewn i'w gwasanaeth gyrfaoedd. Mae angen gwneud mwy i gasglu gwybodaeth ond, yn allweddol, dylai hynny gynnwys gwneud defnydd gwell o'r data sydd eisoes yn cael ei gasglu gan ddarparwyr addysg drydyddol a'r wybodaeth ar lawr gwlad sydd gan ysgolion, colegau, AU. ***Gallai fod rôl ddefnyddiol i Medr o ran dwyn yr wybodaeth honno ynghyd mewn un lle. **Gellid integreiddio hyn o fewn asesiad effaith dan Amcan Un (1)(ii) yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol Medr.*****

***Ceir perth wmbredd o ddyblygu lle mae rhaglenni a mentrau sgiliau yn y cwestiwn ac, o ganlyniad, mae'r cyllid yn cael ei wasgaru'n denau ac ar sail fyrdymor. Mae hefyd yn gwneud y system yn anodd ymgodymu â hi. Awgrymwyd efallai y gallai fod gan Medr rôl i symleiddio neu gydlynu rhaglenni ar draws y system drydyddol.***

A ddylai fod ymarfer cychwynnol, o bosibl gydag awdurdodau lleol, i ganfod yn union pa raglenni a chydweithio sy'n digwydd ac ymhle? Derbynnid y bydd datblygu dealltwriaeth gyflawn am raddfa lawn y partneriaethau ledled Cymru'n her i sefydliad o 120 o bobl. Mae hyn yn bwydo i mewn i bwynt ehangach a wnaed y gallai Medr fod y cyfrwng i ddefnyddio'r arian sydd eisoes yn y system i hybu ffyrdd gwell o weithio. *****Gallai hyn gyd-fynd yn dwt ag Amcan Dau (3) yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol Medr.*****

***Rhaid i'r system addysg drydyddol gynnig ystod eang o gyrsiau gwahanol sy'n cyd-fynd ag anghenion lleol o ran sgiliau (AB: lleol; AU: rhanbarthol) ac, yn ogystal â chasglu digon o ddata, mae hynny'n dibynnu ar feddwl cydgysylltiedig a chydweithio'n lleol i sicrhau bod y ddarpariaeth yn amrywiol ac yn 'llenwi bylchau'.*** Un rhwystr i'r cydweithio hwnnw yw amser, yn enwedig ar ran ysgolion a chyflogwyr llai. Mae angen ymdrin a gwerthusiadau o'r effaith ac asesiadau risg (e.e. ar gyfer lleoliadau gwaith) sy'n rhy fiwrocrataidd. A allai Medr helpu gyda phlatfform asesu risg cyffredin i gyflogwyr dderbyn disgyblion ar brofiad gwaith?

Ar yr un pryd, serch hynny, fe nodwyd fod digonedd o ddarparwyr a sefydliadau sy'n syml yn amharod neu heb yr arbenigedd a'r sgiliau arwain angenrheidiol i gydweithio'n effeithiol. Awgrymwyd y gallai fod rôl i Medr o ran gwneud partneriaethau anffurfiol yn rhywbeth mwy parhaol, o bosibl yn gyfreithiol rwymol hyd yn oed. ***Partneriaethau, ond ar sylfaen gadarn!! **Gallai hyn gael ei integreiddio fel rhan o asesiad effaith dan Amcan Un (1)(ii) yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol Medr.*****

Cafodd Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol eu crybwyll yn aml gan gyfranogwyr ar draws y gweithdai yn Llandudno ac yng Nghaerdydd fel modelau llwyddiannus ar gyfer cydweithio a arweinir yn lleol; fodd bynnag, yn sicr ceir peth amrywiad rhanbarthol yn eu heffeithiolrwydd, er gwaethaf adnoddau ariannol sylweddol, yr effeithir arno'n rhannol o leiaf gan rwystrau difrifol i gydweithio a wynebir gan rai rhannau o'r wlad.

Roedd adborth gan rai cyflogwyr yn awgrymu bod Cyfrifon Dysgu Personol yn gyfle da i lenwi bylchau o ran sgiliau penodol, sy'n flaenoriaeth yn y rhanbarth.

***Rhaid i Medr fod yn effro i'r ffaith y ceir hefyd nifer o rwystrau sy'n effeithio ar ein gallu i baratoi dysgwyr ar gyfer natur newidiol bywyd a gwaith sydd y tu hwnt i'r system addysg drydyddol.*** Nodwyd yn fynych fod dysgwyr, rhieni a chymunedau wedi newid yn sylfaenol dros y 10 mlynedd ddiwethaf, gyda dysgwyr yn aml angen mwy o gymorth/sgaffaldio. I ddatrys yr heriau hyn neu ymdrin â hwy, gallai Medr fod â rôl o ran cysoni'r system addysg drydyddol â rhannau eraill o'r system: cymunedau, gwasanaethau iechyd a chymdeithasol, a chyfnodau cynharach yn y system addysg. Dylai'r modd y mae Medr yn cysylltu â'r rhannau hyn o'r system gael ei fynegi'n glir. *****Gellid integreiddio hyn o fewn asesiad effaith dan Amcan Un (1)(ii) yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol Medr.*****

***Bydd deall y llif i mewn i addysg drydyddol yn hollbwysig – "Mae angen i Medr wybod beth sy'n ei bwydo".*** Mae'n bosibl ein bod, yn y gorffennol, wedi tueddu i ddefnyddio dull 'o AU i lawr', ond beth am rôl Medr o ran ystyried sut y mae ysgolion yn adeiladu tuag at AB ac AU? Ar rai achlysuron ar wahân, awgrymwyd y gallai'r pedwar diben sy'n tanategu'r Cwricwlwm newydd i Gymru mewn ysgolion gael eu sefydlu'n rhwydd fel rhan o nodau Medr, fel continwwm sy'n parhau i mewn i addysg drydyddol.

**Blaenoriaeth Strategol 2 - Cynnal a gwella ansawdd y system drydyddol, parhau a dwysáu gwaith ar ehangu cyfranogiad a chymryd camau i sicrhau system fwy teg a rhagorol i bawb**

A. **Cynnal a gwella ansawdd:**

*i.* ***Pennu 'ansawdd':***

- ***Bydd angen i Medr fynegi'n glir sut y mae darpariaeth drydyddol o ansawdd da'n edrych i sicrhau bod gennym ddiffiniad a dealltwriaeth a rennir ar gyfer yr hyn yr ydym yn gweithio tuag ato. **Gallai effeithiolrwydd ymdrechion Medr i wella ansawdd yn erbyn ei ddiffiniad gael ei integreiddio o fewn asesiad effaith dan Amcan Un (1)(ii) yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol Medr.***** Gallai hyn fod o gymorth hefyd i gael gwared ar rywfaint o ddyblygu yn y system. Gallai diffiniad o system addysg drydyddol o ansawdd da gynnwys:
  - ***Ffocws ar degwch, nid cydraddoldeb***, o ystyried natur newidiol gwaith, cyfraddau diweithdra, gwahanol gefndiroedd dysgwyr a.y.b.. Dylai darparwyr fod yn barod ac wedi'u harfogi i gynnig gwahanol haenau o gymorth i wahanol ddysgwyr gael mynediad teg at y system. Gall y system gyfredol fod â gormod o ffocws ar fynediad ar gyfer y rhai sy'n gadael yr ysgol ac yn mynd ymlaen i addysg amser llawn, ond rhaid i unrhyw ffocws ar wella ansawdd ystyried, er enghraifft, ddysgwyr rhan-amser a dysgwyr hŷn hefyd.
  - ***Ffocws ar ddeilliannau, neu'r deilliant iawn i'r dysgwr***, i'w galluogi i gamu ymlaen at gam nesaf eu taith, beth bynnag fo hynny (h.y. nid cymhwyster o anghenraid). Mae data ar ddeilliannau'n bwysig i allu hyrwyddo manteision addysg drydyddol a darparwyr unigol i ddenu dysgwyr o Gymru ac yn rhyngwladol. Un her i hyn yw nad yw'r math o ddata a dibynadwyedd data'n gyson ar draws yr holl ddarpariaeth drydyddol ar hyn o bryd a bydd angen datrys hynny.

- ***Targedau uchelgeisiol a safonau uchel i wella bri rhyngwladol Cymru.*** Gallai hyn hefyd gynnwys ystyried yr hyn sy'n bwysig o safbwynt darpar fyfyriwr rhyngwladol, e.e. y cyfleoedd ar ôl astudio (h.y. deilliannau/cyrchfannau), yr arlwy cymorth i fyfyrwyr – a'r arlwy i'w teuluoedd.
- ***Ffocws ar ymdrechion i leihau anghydraddoldebau o ran mynediad a chyrhaeddiad trwy ddata.*** Er hynny, fe nodwyd efallai nad yw targedau'n briodol nac yn ddigon i wella tegwch, o ystyried bod gan ddarparwyr gyd-destunau gwahanol. *****Gallai hyn gynorthwyo Medr gydag Amcan Dau(5) yn ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol.*****

***ii. Rheoleiddio***

*******Gallai'r canfyddiadau yn yr adran hon gynorthwyo Medr gydag Amcan Dau yn ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol.*****

- *Dylai dull o fonitro neu reoleiddio ansawdd:*

  a) ***Cadw arolygu neu adolygu ar ryw ffurf, gan bod hyn yn gymhelliad pwysig i ddarparwyr wneud neu roi'r gorau i wneud pethau.*** Fodd bynnag, ni ddylai rheoleiddio darpariaeth drydyddol fod yn gwerylgar, nac yn ymarfer 'ticio blychau' (felly gallai fod angen diffiniad eang o 'ansawdd').
  b) ***Bod yn ymwybodol o'r heriau a wynebir gan wahanol gymunedau a darparwyr*** (e.e. poblogaeth y rhai Nad Ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth Na Hyfforddiant, dyhead a chludiant gwledig) ***a'r math o ddarpariaeth*** (e.e. galwedigaethol o'i gymharu ag academaidd; "ni all yr un model fod yn addas i bawb"). Cafodd Prifysgol y Plant ei henwi fel enghraifft o arfer da.
  c) ***Ystyried a oes digon o waith ymchwil/gwerthuso sy'n rhoi sylw i arferion yn y gorffennol (yng Nghymru neu'n rhyngwladol) i wybod beth sy'n effeithio ar ddysgu ac addysgu da mewn addysg drydyddol,*** e.e. beth yw gradd isel ei gwerth? Gallai Medr gynorthwyo sefydliadau i werthuso eu dulliau eu hunain a llunio'u casgliadau eu hunain ynglŷn â'r hyn a weithiodd yn dda yn eu priod gyd-destunau.

***iii. Cyllid:***

***** Gallai'r canfyddiadau yn yr adran hon gynorthwyo Medr gydag Amcan Dau yn ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol.*****

- ***Mae sefydlogrwydd ariannol hirdymor y system addysg drydyddol yng Nghymru'n amlwg yn bryder sylweddol ac yn rhwystr sylweddol i'r ymdrechion a'r newidiadau sy'n ofynnol i wireddu uchelgeisiau i wella ansawdd y ddarpariaeth.*** Er bod dealltwriaeth mai ychydig iawn o arian

sydd i fynd o gwmpas, efallai fod gan Medr yr oruchwyliaeth strategol angenrheidiol i allu canfod sut y gallai'r arian yn y system addysg drydyddol gael ei ddefnyddio'n well ac i lobïo am newid o ran y mecanweithiau/cymhellion lle mae cyllid yn y cwestiwn.

- ***Mae'n anorfod bod cyllid yn effeithio ar ddewis a chyfranogiad dysgwyr, gan bod cyllid cyfyngedig neu gyllid pwnc-benodol yn effeithio ar argaeledd y ddarpariaeth.*** Oni ddylai cyllid fod o fudd i'r dysgwr, yn hytrach na'r sefydliad?
- ***Ceir heriau parhaus o fewn tirwedd Ymchwil ac Arloesi Cymru, gan gynnwys sicrhau mwy o gyllid yn uniongyrchol i ddarparwyr a defnyddio'r cyllid a geir yn well, y byddai Medr o bosibl yn gallu rhoi cymorth i'w wneud.*** Er enghraifft, ar hyn o bryd nid oes cynrychiolaeth o Gymru ar Fwrdd Ymchwil ac Arloesi yn y DU (er bod cynrychiolwyr o Ogledd Iwerddon a'r Alban). Mae'r dirwedd cyllid AU ehangach anos hefyd yn ei gwneud yn fwy o her i sefydliadau sicrhau cyllid cystadleuol, a chydweithio ar brosiectau a cheisiadau am grantiau ymchwil. Gallai Medr fod â rôl o ran hwyluso mwy o gydweithio ar brosiectau lle ceir buddiant cyffredin trwy bartneriaethau a phrosesau syml sydd o fudd i'r naill a'r llall.

***Menti: Sut ddylem ni wella ansawdd y ddarpariaeth yng Nghymru?***

- Mesurau eglur o ansawdd y tu hwnt i ganlyniadau arholiadau e.e. dilyniant.
- Cysoni ag anghenion cyflogwyr.
- Chwarae i gryfderau'r gwahanol rannau o'r system – arbenigedd yn hytrach na dyblygu.

(*gweler Atodiad A tt.50-51 ac Atodiad B tt.124-133*).

## B. <u>Ehangu cyfranogiad:</u>

*****Gallai effeithiolrwydd ymdrechion Medr i ehangu cyfranogiad ymhlith grwpiau penodol gael ei integreiddio fel rhan o asesiad effaith dan Amcan Un (1)(ii) yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol Medr.*****

***Cafodd nifer o wahanol grwpiau o unigolion y gallai ymgysylltu ag addysg drydyddol fod yn her iddynt eu henwi mewn sgyrsiau; gallai'r rhain gael eu grwpio fel:***

*i.* ***Y rhai a wnaeth ymddieithrio oddi wrth ddysgu yn yr ysgol, sydd wedyn yn gweithredu fel rhwystr i ymgysylltu ag addysg ôl-orfodol, drydyddol.*** Er enghraifft, roedd cryn dipyn o bryder ynghylch poblogaeth gynyddol y rhai Nad Ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth Na Hyfforddiant (a'r effaith y mae hyn wedi'i chael ar niferoedd yr ymgeiswyr sy'n hanu o Gymru i AU), 'cenhedlaeth Covid' o ddysgwyr sy'n wynebu heriau ychwanegol (e.e.

iechyd meddwl) a/neu a all ei chael hi'n anodd ymrwymo i gyrsiau hir; dysgwyr ag AAAA, a'r rhai sydd wedi cael ergyd i'w hyder neu eu dyheadau. Gall fod datgysylltiad hefyd rhwng yr hyn y mae ar bobl eisiau ei astudio a'r hyn y mae ar yr economi ei angen.

- ***Ceir tensiwn rhwng y ffocws cyfredol ar 'gymwysterau' yng Nghymru o'i gymharu â sgiliau.*** Gallai newid i roi mwy o bwyslais ar sgiliau – sy'n dibynnu ar fwrw golwg ar yr hyn yr ydym yn ei fesur mewn ysgolion, colegau trwy fetrigau asesu ac atebolrwydd, fel canlyniadau arholiadau, sy'n llywio ymddygiad ysgolion, colegau, prifysgolion a chyflogwyr; mecanweithiau cyllido ar gyfer darparwyr trydyddol (e.e. rhaid i arlwy X gynnwys Y% o gymwysterau achrededig); priodoldeb gofynion mynediad ar gyfer rhai gyrfaoedd, fel nyrsio; ac agweddau diwylliannol yn fwy cyffredinol – gan gynnwys darpariaeth fer, nerthol (e.e. Cyfrifon Dysgu Personol) a dathlu/gwobrwyo datblygiad sgiliau fod o fwy o fudd i ennyn ymgysylltiad y dysgwyr hyn o'r newydd. ***Derbynnid yn eang nad yw trawsnewid o'r fath yn hawdd, a bod rhaid iddo fod yn raddol, ond mae'n ddigon posibl bod gan Medr rôl bwerus, o leiaf, i newid rhai o'r agweddau diwylliannol hynny ynglŷn â sgiliau o'i gymharu â chymwysterau a dylanwadu ar Lywodraeth lle mae'r ffactorau strwythurol/ar lefel y system yn y cwestiwn.***

- Nodwyd hefyd fod angen i Gymru fod yn barod i ateb galw uwch posibl o blith yr unigolion hyn wrth iddynt aeddfedu, pe baent yn wynebu rhwystrau i gyflogaeth/mewn cyflogaeth yn ddiweddarach (e.e. gyda datblygiadau technolegol).

*ii.* ***Y rhai ac arnynt eisiau ymgysylltu ag addysg drydyddol nad ydynt yn gallu oherwydd cyfyngiadau eraill.*** *Roedd cyfyngiadau a godwyd yn fynych yn cynnwys:*

a. ***Tirwedd gymhleth, anghydlynus o lwybrau trydyddol ac argaeledd bratiog gwybodaeth, cyngor ac arweiniad o ansawdd da, yn enwedig mewn perthynas â llwybrau galwedigaethol*** – mae'n achos pryder penodol i ba raddau y mae hyn wedi ymwreiddio'n ddiwylliannol/strwythurol. Ceir galw'n arbennig am ragor o wybodaeth am brentisiaethau. Nid yw'r opsiynau'n glir, yn hawdd ymgodymu â hwy'n annibynnol a gall ymgodymu â hwy fod yn her seicolegol hyd yn oed. Nid dim ond i ddysgwyr o oedran ysgol y mae hyn yn her, ond ceir nifer o oedolion a all fod yn ansicr ynghylch eu hopsiynau gyrfaol ac y gall fod angen cymorth gwell arnynt.

b. ***Ariannol*** **–** mae naill ai baich mynd i ddyled er mwyn astudio neu brofi caledi ariannol wrth astudio, er gwaethaf y pecyn cynhaliaeth i

fyfyrwyr, a'r rhagolygon o ran enillion ar ôl cwblhau, hyd yn oed mewn dinasoedd fel Caerdydd (sy'n cyfrannu at ymfudiad ymhlith y rhai peniog) yn rhwystr mawr, yn enwedig i bobl ifanc ddifreintiedig. Gall opsiynau galwedigaethol, sy'n eich galluogi i ennill cyflog wrth ddysgu, leddfu rhywfaint ar y pwysau ariannol, ond mae hyn yn dibynnu ar wella argaeledd/ansawdd y cyngor, a newid diwylliannol (gan wella 'parch cydradd'). Nodwyd fod cyllid ymgysylltu trwy'r awdurdodau lleol yn gweithio'n dda i ennyn ymgysylltiad dysgwyr sy'n oedolion ar raglenni sgiliau sylfaenol.

c. ***Iaith*** – Mae cyfleoedd i astudio yn Gymraeg yn fwy cyfyngedig ar bob lefel, neu mae darpariaeth ddwyieithog yn aml yn gogwyddo tuag at y Saesneg. I ddarparwyr, gall fod a wnelo hyn ag argaeledd athrawon sy'n siarad Cymraeg a/neu gost cynnal cyrsiau dwyieithog lle nad oes ond nifer fach o siaradwyr Cymraeg wedi ymrestru. I ysgolion, mae hyn yn creu problem lle maent yn annog disgyblion i astudio ymhellach trwy gyfrwng y Gymraeg mewn sefydliad AU, ond a hwythau'n cael trafferth darparu'r cyrsiau angenrheidiol i'w galluogi i symud ymlaen. Pa un a ellir cyfiawnhau'r cyllid ychwanegol y mae ei angen i gefnogi niferoedd llai o ddisgyblion, mae hynny'n densiwn o fewn y system gyllido bresennol ac yn fater o flaenoriaethu. Er hynny, bydd cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn cynyddu'r galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. ***Un pwynt posibl i Medr ei archwilio fyddai: sut mae darpariaeth ddwyieithog gynaliadwy, o ansawdd da yn edrych?***

d. ***Daearyddol*** – i fyfyrwyr gwledig, difreintiedig, yn aml mae'r ddarpariaeth yn dod i ben yn eu hardal leol pan ydynt yn 16 neu 18, gan bod angen iddynt deithio am gost. Mae hyn yn gwneud mynediad teg yn fwy o her yn ardaloedd gwledig Cymru nag yn unrhyw le arall.

e. **Cyfrifoldebau gofalu / teuluol / gwaith / cyfrifoldebau eraill sy'n mynd â llawer o amser** – mae argaeledd (neu farchnata) darpariaeth sy'n ddigon hyblyg i gyd-fynd ag ymrwymiadau eraill a derbyniad cymdeithasol i hynny'n gallu bod yn her, yn aml yng nghyd-destun myfyrwyr hŷn. Mae'n ddigon posibl bod gorgyffwrdd â'r 'grŵp' cyntaf o unigolion (uchod), yn enwedig o ystyried bod y rhai â chymwysterau blaenorol yn fwy tebygol o ailhyfforddi na'r rhai heb gymwysterau blaenorol. ***A allai Medr geisio ymdrin â rhai o'r rhwystrau hyn ar y cyd â chyflogwyr, darparwyr ac annog y rhai sy'n gadael ysgol i ailgydio yn eu haddysg yn ddiweddarach yn eu hoes?***

*f.* **Parch cydradd** – codwyd hyn mewn amrywiaeth o gyd-destunau (e.e. y pwynt uchod) ond yn fwyaf cyffredin mewn perthynas â'r pryder bod agweddau tuag at gymwysterau galwedigaethol yn cael effaith negyddol ar argaeledd gwybodaeth a chyngor ynghylch y llwybrau hyn, a all fod yn fwy hygyrch (e.e. hyblyg, modiwlar) na llwybrau academaidd traddodiadol. Awgrymwyd y ***gallai Medr fod yn rym gwirioneddol er daioni o ran newid agweddau diwylliannol/cymdeithasol trwy hybu gwerth cymwysterau a gyrfaoedd galwedigaethol a thechnegol (e.e. dathlu prentisiaid, myfyrwyr galwedigaethol).***

- ***Gan bod hynny'n berthnasol i nifer o'r rhwystrau hyn i gyfranogiad, mae angen ystyried system drydyddol fwy hyblyg sy'n galluogi dysgwyr i ddysgu'n 'ysbeidiol' a gwneud i ddysgu gyd-fynd ag ymrwymiadau eraill, fel ffordd bosibl ymlaen.*** Gallai hyn gynnwys y gallu i drosglwyddo credydau'n syml, ac o bosibl micro-gymwysterau a gyllidir sy'n cyd-fynd ag anghenion diwydiant i agor llwybrau i mewn i sectorau lle ceir diffygion. Ni chafodd yr Hawl i Fenthyciad Dysgu Gydol Oes (LLE) yn Lloegr ei henwi fel enghraifft gadarnhaol o anghenraid.

- ***Gallai defnyddio dysgu sydd ar gael yn ddigidol ar ôl 16 fod â mwy o rôl yn y broses o ehangu mynediad hefyd, yn enwedig o ran brwydro yn erbyn materion darpariaeth hyblyg a gwledig, er ei bod hi'n bwysig bod dulliau digidol yn ychwanegu at brofiad dysgwyr, nid yn tynnu oddi wrtho.*** Mae llawer o ddysgwyr yn cael budd enfawr, o ran ansawdd yr addysgu a phrofiad y dysgwr, o ddarpariaeth wyneb-yn-wyneb a meithrin perthynas â'u hathrawon a'u cymheiriaid.

***Menti: Sut ddylem ni wneud addysg drydyddol yng Nghymru'n fwy hygyrch a hyblyg?***

- Llwybrau mwy eglur, mwy amrywiol, a ategir gan wybodaeth, cyngor ac arweiniad o ansawdd da. Ystyried system gredydau i ategu prosesau pontio.
- Strategaeth system gyfan ar draws addysg drydyddol ar lefelau cenedlaethol a lleol, sy'n cyd-fynd ag anghenion o ran sgiliau. Hwyluso cydweithio rhwng darparwyr a gwneud llais y dysgwr yn ganolol.
- Cymorth gyda chostau cludiant.
- Defnyddio technoleg i gyflwyno dysgu hybrid.

(*gweler Atodiad A tt.47-48 ac Atodiad B tt.111-120*).

## Blaenoriaeth Strategol 3: Rhoi'r dysgwr wrth wraidd y system drwy ganolbwyntio ar brofiad dysgwyr yn y system drydyddol a'u llesiant.

### Llais y Dysgwr:

***Ymgysylltu'n ystyrlon â dysgwyr yw'r allwedd i lwyddiant lle mae cydraddoldeb, mynediad teg, dewis/cyfle a'r profiad o addysg drydyddol yn y cwestiwn.*** Mae ar bobl ifanc eisiau gwybod sut y bydd eu barn yn gwneud gwahaniaeth. Mae angen i ni fod yn ymwybodol o 'syrffed ymgynghori' a darparu ffyrdd eraill i bobl ifanc fynegi eu barn. Nid oes angen i ni ailddyfeisio'r olwyn (e.e. gwaith Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr, yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr mewn AU, Estyn, sydd eisoes yn monitro'r ymwneud gan ddysgwyr â llywodraethu mewn AB).

***Yna, mae ymateb i anghenion dysgwyr yn gallu cael ei leihau neu ei wneud yn fwy o her i sefydliadau gan fuddiannau sy'n cystadlu â'i gilydd yn y system drydyddol sy'n gweithredu fel rhwystr i wneud dysgwyr yn ganolog iddi go iawn.*** Er enghraifft, effeithir ar ddewis myfyrwyr o ran beth maent yn ei astudio a sut y maent yn astudio ac argaeledd cymorth cofleidiol gan benderfyniadau cyllido a metrigau atebolrwydd.

### Dewis Dysgwyr:

***Mae angen i sgyrsiau am wahanol yrfaoedd, astudio ôl-orfodol gael eu cychwyn yn llawer cynharach yn y system addysg fel bod dysgwyr yn gallu gwneud dewisiadau gwybodus.*** Mae ffocws ar ffordd o fyw, arddulliau dysgu, gwahanol fathau o addysg (a gyflwynir yn gydradd) yr un mor bwysig â ffocws ar gyflogaeth a deilliannau bywyd, gan bod hyn yn gallu newid trwy daith y dysgwr. Gallai ffocws ar ddysgu gydol oes, yn lle ffocws ar yr 'adegau penderfynu' traddodiadol, fod o fudd i lawer o ddysgwyr. Roedd 'newid yn lle gadael' yn un enghraifft o arfer effeithiol mewn colegau AB i dargedu ymddieithriad ymhlith dysgwyr sydd mewn perygl o ddod yn rhai Nad Ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth Na Hyfforddiant. ***Gallai Medr ddefnyddio ei ddylanwad i ymdrin â'r her bod nifer o ysgolion a cholegau'n annog pobl ifanc i ddilyn cyrsiau neu feysydd astudio penodol sy'n eu helpu i gyrraedd eu targedau sefydliadol (e.e. pynciau STEM), a waethygir gan y berthynas glòs rhwng chweched dosbarth mewn ysgolion ac AU.***

### Llesiant:

***Mae cysondeb o ran rhoi cymorth o ansawdd da gyda llesiant ar draws y system addysg drydyddol yn bwysig ar gyfer mynediad teg.*** Gallai 'hawl ofynnol i gymorth gyda llesiant', cronfa ganolog o adnoddau cymorth ar gyfer iechyd meddwl a llesiant a/neu hyfforddiant ar gyfer staff addysg drydyddol i adnabod y rhai a allai

fod yn ei chael hi'n anodd fod o fudd. Mae ffrydiau cyllid iechyd meddwl AB yn profi'n gymorth effeithiol i ddysgwyr.

**_Menti: Sut ddylem ni sicrhau bod dysgwyr yn ganolog i system addysg drydyddol?_**

- Ymgysylltu eang a chyson â dysgwyr trwy blatfformau hygyrch (er y dylid gochel rhag syrffed arolygon – a defnyddio data presennol hefyd). Gofyn i bobl ifanc sut orau i'w cynnwys.
- Rhoi hyn fel eitem sefydlog ym mhob proses benderfynu. Cynnwys dysgwyr ym mhwyllgorau Medr.
- Gwella eu dealltwriaeth am wahanol lwybrau.

(*gweler Atodiad A tt.73-74 ac Atodiad B tt.185-193*).

## Blaenoriaeth Strategol 4: Sicrhau bod y system addysg drydyddol yn cyfrannu at yr economi a'r gymdeithas.

**_Ceir eisoes rai enghreifftiau cadarnhaol o arfer gorau ar draws awdurdodau lleol a'r system addysg drydyddol lle mae cenhadaeth ddinesig gref y gellid ei chyflwyno'n fwy eang yn y cwestiwn._** Mae gan rai awdurdodau lleol (e.e. Conwy) 'strategaeth ddiwylliant' helaeth, gyda chysylltiadau da ac ymwybyddiaeth dda o anghenion o ran sgiliau ym myd diwydiant yn lleol. Yn yr un modd, mae gan lawer o brifysgolion (e.e. Wrecsam) effaith economaidd a chymdeithasol sylweddol (e.e. fel cyflogwyr mawr, cyrsiau sgiliau oedolion, gwirfoddoli) ac maent yn cefnogi arloesi yn yr economi leol trwy ymchwil.

**_Un o'r heriau mwyaf i genhadaeth ddinesig ac ymgysylltu cymunedol yw bod dibenion darparwyr trydyddol (a chyflogwyr/mudiadau cymunedol) sy'n cystadlu â'i gilydd yn dod â chyllid i mewn. Mae cymhellion ariannol ymgysylltu dinesig naill ai'n ddiffygiol neu'n peidio â chael eu hyrwyddo ddigon._** *Mewn AU yn arbennig, addysgu ac ymchwil yw'r prif swyddogaethau a'r rhai sydd felly'n cael eu blaenoriaethu. Yn y gorffennol, bu rhai cymelldaliadau ar gyfer 'ysgolion bro' ond nid yw agor drysau i'r gymuned (e.e. cynnig dosbarthiadau nos, mannau ar gyfer digwyddiadau) yn hyfyw am ei fod yn costio (e.e. biliau ynni, diogelwch).*

**_Yn yr un modd, nid yw'r metrigau atebolrwydd cyfredol ar gyfer ysgolion a cholegau o anghenraid yn rhoi cymhelliad ar gyfer unrhyw beth y tu hwnt i gyflwyno'r cwricwlwm, er bod cwestiwn o hyd ynghylch pa mor addas ar gyfer y diben yw'r cwricwlwm hwnnw o ran paratoi pobl ifanc ar gyfer bywyd a gwaith._** *Mae'r ffocws yn y Cwricwlwm newydd i Gymru ar sgiliau meddal yn rhywbeth i'w*

*groesawu, ond nid oes cymhwyster sy'n asesu cynnydd yn y sgiliau hynny. A yw hyn yn rhywbeth y gallai Medr roi cymorth i'w ddatblygu?*

| |
|---|
| ***Menti: Sut ydym yn sicrhau bod y system yn cyfrannu at yr economi a'r gymdeithas ehangach yng Nghymru?***<br>• Cydweithio gyda phartneriaethau sgiliau rhanbarthol, cyflogwyr, a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru. Medr fel cynullydd cyflogwyr, addysgwyr, a dysgwyr.<br>• Meddwl strategol sy'n gysylltiedig ag anghenion o ran sgiliau yn y tymor byr, canolig a hir.<br>• Cryfhau ymchwil ac arloesi.<br>(*gweler Atodiad A tt.76-77 ac Atodiad B tt.195-204*). |

**Pwyntiau Ychwanegol:**

- Mae angen amser ar gyfer cydweithio rhwng darparwyr trydyddol a'r gymuned/economi ehangach. Mae'n bwysig nad yw sefydlu Medr yn cael eu ystyried yn faich ychwanegol ar ddarparwyr. Ceir hefyd lawer (na fyddent wedi bod yn yr ystafell) sy'n syml yn amharod i ymgysylltu – ac mae angen i ni newid calonnau a meddyliau. Bydd ychydig o gamau cyflym ymlaen yn y dyddiau cynnar, gan ddangos effaith fuddiol Medr, yn bwysig ar gyfer derbyniad cyfunol. *****Gellid ystyried ennyn ymgysylltiad y rhanddeiliaid hyn sy'n anos i'w cyrraedd fel rhan o gyflawni Amcan Dau (1) yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol Medr.*****
- Roedd Seland Newydd (gwersi a ddysgwyd o newid i system drydyddol) ac Awstria (agweddau ac ansawdd addysg a hyfforddiant galwedigaethol) yn ddwy enghraifft yn unig o gymariaethau rhyngwladol y byddai Medr o bosibl yn dymuno eu harchwilio. Roedd diddordeb sylweddol mewn dysgu gwersi o arfer presennol.
- Roedd peth teimlad bod polisïau a mentrau'n mynd a dod yn gyson. Dylai Medr adeiladu ar yr hyn sy'n gweithio, heb ddyblygu'r hyn sydd eisoes yn cael ei wneud.
- Mynegwyd nad oes gan wleidyddion "y dewrder i drafod yr hyn yr ydym yn ei drafod ar lawr gwlad" sydd wedi arwain at ddiffyg blaenoriaethu'r system addysg ôl-16 yng Nghymru, yn enwedig o ran cyllid. Gall bod â'r un blaid yn llywodraethu yng Nghymru ac yn San Steffan fod o gymorth ar gyfer twf ledled Cymru.
- Cafwyd trafodaeth faith am Addewid Caerdydd fel enghraifft o gydweithio trydyddol da, gydag uwch wleidyddion yn dangos diddordeb mewn gweld hyn yn cael ei gyflwyno ar raddfa fawr.

- Gallai Medr sefydlu neu fabwysiadu iaith gyffredin ar draws yr holl ddarparwyr lle mae 'sgiliau' yn y cwestiwn fel bod gennym ni i gyd ddiben/nod cyffredin.

## Barn ynglŷn ag Ymgysylltu (Canfyddiadau o Menti)

Roedd rhanddeiliaid yn hapus at ei gilydd gydag ymgysylltiad yn y ddau weithdy gyda 95% o'r cyfranogwyr yn Llandudno a 100% yng Nghaerdydd yn cytuno eu bod wedi cael y cyfle i ymgysylltu'n agored (*gweler Atodiad A t.79 ac Atodiad B t.206*). O ran ymgysylltu yn y dyfodol, digwyddiadau yn y dyfodol a grwpiau ffocws llai oedd y dewisiadau a oedd yn cael eu ffafrio fwyaf gan gyfranogwyr yn y ddau weithdy (*gweler Atodiad A t.80 ac Atodiad B t.207*) tra bo cyfranogwyr yng Nghaerdydd wedi rhannu syniadau am ffyrdd eraill o ymgysylltu (*gweler Atodiad B tt.208-210*).